# TAFLEN FFEITHIAU
# CYFRYNGAU DIGIDOL

CANLLAWIAU I'R CYFRYNGAU
ar adrodd am hunanladdiad

SAMARITANS
SAMARIAID

## Cefndir

Mae'r cyfryngau digidol wedi gweddnewid newyddiaduraeth mewn llawer o ffyrdd. Maent wedi ehangu'r gynulleidfa bosibl ar gyfer storïau, wedi datblygu platfformau newydd y caiff storïau eu hadrodd arnynt, ac wedi cyflymu'r ffordd mae storïau'n cyrraedd y cyhoedd. Mae angen i gyrff cyfryngol fod yn ymwybodol o effaith adroddiadau ar draws gwahanol gyfryngau, a'r materion sensitif sy'n ymwneud â hwy.

## Arferion gorau ar gyfer adrodd am hunanladdiad gan ddefnyddio cyfryngau digidol

### Tarddiad stori a ffynonellau

- Mae storïau'n lledu'n feirysol ar lein a thrwy rwydweithiau cymdeithasol cyn iddynt gael eu gwirio felly gwiriwch y ffynhonnell yn arbennig o ofalus cyn adrodd bod rhywbeth yn ffaith.

  Gall y pwysau i gyhoeddi'n fuan olygu bod gwybodaeth anghywir am hunanladdiad neu ymgais at hunanladdiad yn ymledu'n gyflym.
- Mae hyd yn oed ffynonellau sy'n cael eu hystyried yn ddibynadwy'n cynhyrchu neu'n ailadrodd gwybodaeth anghywir o dro i dro.
- Os yw hunanladdiad wedi cael ei gadarnhau'n swyddogol gan yr awdurdodau perthnasol mae'n bosibl y bydd yna lawer o ddyfalu o hyd ynghylch yr amgylchiadau. Er enghraifft, gall marwolaeth person enwog ddenu sylw byd-eang ar unwaith ac achosi llawer o ddamcaniaethau ynghylch pam a sut y bu'r person farw. Peidiwch â chynnwys dyfalu o'r fath.
- Mae adroddiadau anghywir am hunanladdiad yn gallu achosi llawer iawn o drallod i gyfeillion a'r teulu.

### Cynnwys

- Mae'r cyfryngau digidol yn caniatáu amrywiaeth o sylw, o fideo byr i drydariadau i ddarnau ysgrifenedig hirfaith. Mae hefyd yn golygu bod cyfraniadau gan 'newyddiadurwyr o ddinasyddion' ac adborth oddi wrth gynulleidfaoedd – gan gynnwys troliau – yn gyffredin.
- Mae'n bosibl y bydd adroddiad am hunanladdiad neu ymgais at hunanladdiad sydd mewn man amlwg neu sy'n gorliwio, neu adroddiadau sy'n cynnwys manylion am ddull hunanladdiad, yn dylanwadu ar ymddygiad pobl fregus.

- Mae'n bosibl na fydd pobl sy'n postio ar edeifion sylwadau'n ymwybodol o godau ymddygiad i newyddiadurwyr neu ganllawiau i'r cyfryngau ar adrodd am hunanladdiad. Gall hyn ei gwneud yn fwy posibl y bydd cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n tramgwyddo neu'n gorliwio yn ymddangos ar safle. Gall fod o gymorth os eir ati i gymedroli edeifion sylwadau. Dylid craffu'n ofalus ar bob math o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ac sy'n ymdrin â hunanladdiad cyn ei gyhoeddi ar lein, er mwyn ceisio atal gwybodaeth anghywir neu wybodaeth a all fod yn niweidiol rhag cyrraedd grwpiau bregus.
- Mae clodfori a choffáu pobl a fu farw o ganlyniad i hunanladdiad yn gyffredin ar lein, yn arbennig mewn rhwydweithiau cymdeithasol. Mae cyfeirio at y fath gynnwys, yn enwedig pan fo'n sôn am bobl ifanc, yn gallu creu swyn o gwmpas marwolaeth.
- Mae defnyddio ffotograffau dro ar ôl tro, ac yn arbennig 'orielau' lluniau ar-lein, o bobl sydd wedi marw o ganlyniad i hunanladdiad yn gallu peri trallod mawr i bobl sydd wedi cael profedigaeth. Peidiwch â defnyddio lluniau o bobl ifanc sydd wedi'u lladd eu hunain ac, os defnyddir ffotograffau o unigolion, peidiwch â'u rhoi mewn man rhy amlwg.
- Mae'n bosibl na fydd cynnwys fideo a sain sy'n cael ei bostio ar lein yn cydymffurfio â chodau moeseg newyddiadurol neu ganllawiau cyffredinol ar adrodd am hunanladdiad. Cyn i chi ddefnyddio'r fath ddeunydd neu roi dolen iddo, gwiriwch nad yw'n creu swyn o gwmpas hunanladdiad nac yn rhoi manylion dulliau.
- Mae'n ddoeth bod yr un mor ofalus wrth hyrwyddo stori gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu ag y byddai yn achos cyfryngau prif ffrwd. Er enghraifft, sicrhau y defnyddir ieithwedd briodol nad yw'n gorliwio.
- Byddai atgynhyrchu neu roi dolenni i gynnwys o ystafelloedd sgwrsio, gwefannau sy'n dadlau dros hunanladdiad a fforymau ar-lein eraill yn gallu niweidio pobl fregus a pheri trallod i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth.

## Effaith

- Oherwydd y potensial iddynt gyrraedd nifer fawr o bobl yn gyflym, mae storïau am hunanladdiad a gyhoeddir ar lein yn gallu cael effaith sylweddol, yn arbennig ar grwpiau bregus, fel pobl sy'n cael meddyliau hunanladdol, pobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad a phobl iau.
- Dylech gynnwys dolenni at y Samariaid a ffynonellau cymorth eraill, er mwyn hybu ymddygiad ceisio cymorth, a gwneud hynny mewn ffordd mor amlwg ag sy'n bosibl.
- Cysylltwch â thîm cyfryngau'r Samariaid i gael mwy o wybodaeth a chyngor am adrodd am hunanladdiad.

**I gael awgrymiadau cyffredinol am yr arferion gorau gweler *Canllawiau'r Samariaid i'r Cyfryngau ar Adrodd am Hunanladdiad* ar: www.samaritans.org/mediaguidelines**


**Cysylltu â swyddfa'r wasg y Samariaid:**
**+44 (0)20 8394 8300**
Tu allan i oriau: **+44 (0)7943 809 162**
press@samaritans.org
#reportingsuicide